# Cofnodion

## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

Dyddiad: Dydd Gwener, 30 Gorffennaf 2021

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr L Lacey (Cadeirydd), G Berry, P Hourahine, M Al-Nuaimi, Y Forsey, C Ferris, M Evans and F Hussain

Joanne Gossage (Green Services Manager), Rhys Thomas (Regulatory Services Manager – Environment and Community), Connor Hall (Cynghorydd Craffu), Neil Barnett (Swyddog Llywodraethu), Anne Jenkins (Governance Team Leader) and Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr C Evans

---

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

3 **PSPO Parciau**

Gwahoddwyd:
Joanne Gossage Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden
Jennie Judd Rheolwr Tîm (Parciau ac Adloniant)
Diolchodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden i'r pwyllgor am ddarllen yr adroddiad a gwrando ar y cyflwyniad. Cyn 2015, yr oedd gorchmynion rheoli cŵn fel arfer yn benodol i safleoedd, a byddai ystyriaethau'n cael eu gwneud wrth greu'r gorchmynion hyn o ran gwarchod bywyd gwyllt a da byw. Yr oedd y gorchmynion hyn yn rhedeg ar y cyd ag is-ddeddfau am barciau ffurfiol, mannau agored, a thir comin, etc.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth wrth y pwyllgor fod pob gorchymyn blaenorol wedi eu diddymu gan Ddeddf Ymddygiad Troseddol Gwrthgymdeithasol a'u crynhoi yn un gorchymyn; nododd y dylai'r GGMC hwn fod yn llesol i bawb yn y gymuned - perchenogion cŵn a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Nododd y Rheolwr Gwasanaeth eu bod cyn hyn wedi edrych ar safleoedd a chynigiwyd cyfres o gyfyngiadau posib. Dywedodd hefyd eu bod cyn hyn wedi rhoi gorchmynion at ei gilydd ar gyfer mannau yng nghefn gwlad, a wrthodwyd gan y Kennel Club.

Teimlai'r Rheolwr Gwasanaeth ei bod yn hanfodol fod hyn yn mynd gerbron y pwyllgor ac i'r cynnig fynd i ymgynghori arno yn ehangach, gan y byddai'n gwneud yn siŵr y gallai pawb gyfrannu, gan ei fod yn bwnc sy'n ennyn teimladau cryfion.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden y gellid categoreiddio'r cynigion yn yr adroddiad fel dau gynnig cyfyngu a dau gynnig cyffredinol. Esboniodd fod y cynigion cyfyngu yn galw am gau cŵn allan yn gyfan gwbl o fannau chwarae (ac eithrio am gŵn cymorth) ac yn ail, rhaid cadw cŵn ar dennyn dan rai amgylchiadau fel mewn mynwentydd a mannau lle mae buddiannau eraill i'w hystyried, fel cadwrfeydd bywyd gwyllt. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden fod y ddau gynnig cyffredinol yn gymwys ar draws safleoedd Cyngor Dinas Casnewydd lle nad oes llawer o reolaeth, a'r cyntaf oedd symud baw ci o dir, nid dim ond mannau agored ond hefyd ymylon priffyrdd a llwybrau at fannau agored, gan ddweud bod yn rhaid iddynt hefyd gael y modd i symud baw eu hunain. Yn ail, esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden fod y cynnig yn cyfarwyddo perchenogion cŵn fod yn rhaid i gŵn fod ar dennyn pan fydd y gorfodwyr perthnasol yn dweud wrthynt er mwyn cadw'r anifail dof dan reolaeth.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden y byddai un o'r mesurau eithrio yn eithrio tymhorol; yn ystod y tymor chwarae i gaeau chwarae, cynigiwyd eithrio cŵn o'r mannau hynny. Esboniodd na fyddid yn eithrio cŵn o barc cyfan na mannau agored lle gall y caeau hyn fod, mai dim ond atal y ci rhag mynd ar leiniau sydd wedi eu marcio.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden esiampl Parc Lysaghts, gydag enghreifftiau o dri mesur o eithrio cŵn yn gyfan gwbl o fan chwarae, eithrio cŵn adeg rhai tymhorau o leiniau chwaraeon wedi eu marcio a'r lle i gŵn sydd dan reolaeth gywir. Teimlai bod hyn yn dystiolaeth o'r awydd i beidio ag eithrio cŵn yn gyfan gwbl o fannau, dim ond egluro'r rheolau am yr ardaloedd. Byddai'r adroddiad yn dangos i'r cyhoedd pam a sut y mae hyn yn cael ei weithredu ac yr oedd yn esbonio beth y gallant wneud ar y safle.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth esiampl arall i'r pwyllgor; Hartridge Wood, lle'r oedd y gorchymyn cyffredinol i roi cŵn ar dennyn a than reolaeth agos, heb gyfyngiadau penodol. Ymysg esiamplau eraill y mae mynwent Sant Gwynllyw, lle dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden y byddai'n rhaid i gŵn fod ar dennyn bob tro heb amrywiad tymhorol, ac Allt-Yr-Yn, lle gallai cŵn fod dan reolaeth gyffredinol yn unig. Dywedodd fod symud baw cŵn yr un mor gymwys i bob safle, waeth beth yw'r gwahanol lefelau o eithrio.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden fod awydd i gydbwyso iechyd a lles y cyhoedd a lle syr anifail, ac yr oedd yn cydnabod fod yn rhaid i anifeiliaid gael ymarfer. Nid pwynt y GGMC fyddai gosod gormod o gyfyngiadau ar berchenogion cŵn na'r cŵn eu hunain, ond i sicrhau mwynhad pawb mewn parciau a mannau agored.

Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden y pwyllgor fod awdurdodau eraill yn edrych ar hyn, gan grybwyll Caerdydd, Caerfyrddin, Rhondda Cynon Taf, Sir y Fflint a Chonwy. Dywedodd eu bod o fewn yr un amserlen a'r lleill, er yr hoffai i'r GGMC fod wedi cael ei ystyried yn gynt, ond yr oedd yn cydnabod fod y pandemig a materion eraill wedi cymryd blaenoriaeth. Gwahoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden wedyn y Rheolwr Tîm (Parciau ac Adloniant) i gyflwyno'r holiadur fyddai'n rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus. Rhoddodd y Rheolwr Tîm (Parciau ac Adloniant) sicrwydd i'r pwyllgor y byddai'r holiadur ar gael ar-lein i aelodau'r cyhoedd. Rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor hefyd y byddai rhanddeiliaid yn cael cyngor i gysylltu ag aelodau, a rhoddodd enghraifft y Kennel Club. Esboniodd y Rheolwr Tîm hefyd y buasent yn ysgrifennu at glybiau chwaraeon a chyrff llywodraethol i ymgynghori. Byddid yn cysylltu â Chyngor Moslemaidd Cymru am eu pryderon ynghylch pobl gafodd brofedigaeth, er mwyn ehangu'r cyfle i ymgynghori â chymunedau lleiafrifol. Hefyd, cadarnhaodd y Rheolwr Tîm y byddai trefniadau i arddangos baneri ym mharciau amlwg y ddinas i roi gwybod i'r cyhoedd am yr ymgynghoriad, yn ogystal â chysylltiadau cyhoeddus yn rhannu dolenni ar gyfryngau cymdeithasol i dynnu sylw trigolion.
Agorwyd y llawr wedyn i gwestiynau.

- Yr oedd aelod yn croesawu'r GGMC Parciau ond gofynnodd sut y byddai'n cael ei orfodi a chan bwy.

Atebodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden mai'r ddealltwriaeth oedd, unwaith y bydd y gorchymyn yn ei le, y gellid ei orfodi gan unrhyw un a ddirprwywyd i orfodi, gan gynnwys yr Heddlu, swyddogion dynodedig y cyngor, e.e., wardeniaid parciau a wardeniaid cŵn, a SCCH. Nododd fod terfyn ar y dirwyon y gall swyddogion roi a bydd angen gweithio gyda chydweithwyr Iechyd Amgylchedd i weld sut i reoli hyn petae'n dod yn broblem.

- Holodd aelod o'r pwyllgor a fyddai'r mapiau a roddwyd i'r pwyllgor yn cael eu rhoi ar hysbysfyrddau yn y parciau er gwybodaeth i'r cyhoedd.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden sicrwydd i'r pwyllgor mai'r bwriad oedd ac yw bod mor glir ag sydd modd wrth y cyhoedd. Dywedodd y byddai cynlluniau a hysbysiadau ar gael ar-lein, a baneri gyda dolenni am yr ymgynghoriad at y wefan ac i ddweud lle i gael mwy o wybodaeth.

Croesawodd aelod o'r pwyllgor y cynigion gan deimlo fod gweithredu yn synnwyr cyffredin, gan obeithio y byddai'n cael ei orfodi. Lleisiodd yr aelod pwyllgor bryder am broblem diffinio rheolaeth 'gywir' neu 'agos', yn enwedig mewn mannau agored. Dywedodd yr aelod pwyllgor na ddylid effeithio ar ansawdd bywyd cŵn na'u gallu i ymarfer. Aeth ymlaen i holi pam y cynhwyswyd cwestiwn oedd yn ymwneud ag anableddau neu broblemau iechyd blaenorol.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden y pwyllgor at yr adroddiad lle mae gorchymyn drafft (tudalennau 35/36) lle dywed (adran 6.2/3) fod yn rhaid i bobl gadw cŵn ar dennyn pan fo gorfodwr priodol yn mynnu hynny, gan esbonio y gofynnir hynny pan fo'n rhesymol angenrheidiol. Dywedodd ei bod eisiau i gŵn allu cymdeithasu a mwynhau bywyd mewn modd derbyniol, ac mai mater o gydbwysedd yw'r GGMC. Yr oedd yn gobeithio bod y cymalau hynny yn esbonio wrth y pwyllgor yr hyn a fwriadwyd yn y GGMC. Yr oedd yr aelod pwyllgor yn gwerthfawrogi hyn, ond yn dal yn bryderus rhag i ragdybiaethau gael eu gwneud gan y sawl nad oedd yn llawn ddeall nac yn gallu darllen y GGMC yn llawn. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden i ymholiad am gynnwys cwestiwn yn ymwneud ag anableddau/materion iechyd, gan ddweud y gall hyn ymwneud â chŵn cymorth, ac y dylid, efallai, ei ail-eirio neu ei dynnu allan yn gyfan gwbl.

Dywedodd y pwyllgor wrth y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden eu bod wedi derbyn gohebiaeth gan etholwyr a'r gymuned Foslemaidd yn holi am y rheolau ac am i gŵn gael eu gwahardd o fynwentydd. Holodd yr aelod sut y byddid yn trin baw cŵn ac a benodwyd rhywun i ymwneud yn benodol â hynny.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth mai'r broblem gyda gwahardd yn llwyr yw bod hawliau tramwy dynodedig trwy fynwentydd, ac yn Christchurch yn benodol, fod hawl tramwy sy'n mynd trwy fannau lle claddwyd yn fwy diweddar. Dywedodd, er bod pobl yn cael eu hannog i ddefnyddio llwybrau ochr, os bydd problemau yn codi, y gellid gwyro'r hawl tramwy. Soniodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden ymhellach am yr awydd i reoli problemau trwy ddweud y bydd mwy o ymwybyddiaeth o'r angen i gadw cŵn ar dennyn yn annog aelodau'r cyhoedd. Bydd arwyddion ar gael hefyd, a staff ar y safle i orfodi'r rheolau; y mae hefyd drefn gwynion i ddilyn y materion hyn i fyny. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden na fydd pobl mewn mynwentydd i reoli defnydd y cyhoedd bob awr o'r dydd, ond fe ddywedodd y bydd angen adolygu a cheisio rheoli deddfwriaeth hawl tramwy a phwerau eraill. Yr oedd yr aelod pwyllgor hefyd yn pryderu am gerrig beddau, gan ofyn, petaent yn cael eu torri neu eu fandaleiddio, ar bwy mae'r cyfrifoldeb o'u cynnal? Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden, er nad oes a wnelo hyn â'r pwnc, mai cyfrifoldeb perchennog y bedd yw cynnal a diogelwch ar y safle. Os bu problem gyda

dymchwel carreg, gallant ofyn am help, ond yn y pen draw, cyfrifoldeb perchennog y bedd ydyw. Yr oedd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden yn cydnabod fod hyn yn fater y tu hwnt i gwmpas y cyfarfod hwn, ond y gallai'r aelod gysylltu â'r Rheolwr Tîm (Parciau ac Adloniant) i fynd at wraidd y broblem.

- Nododd aelod pwyllgor fod gan bob gwlad ffordd o ddelio â mater baw cŵn a mannau agored, ond atgoffodd y pwyllgor o bwysigrwydd cyfrifoldeb perchenogion. Dywedodd fod cofrestrfa ar gael mewn rhai gwledydd i allu olrhain ac erlyn yn briodol achosion o gŵn yn baeddu. Gofynnodd pa mor bell y mae'r GGMC yn mynd a pha mor galed y dylid ei hyrwyddo? Dywedodd yr aelod pwyllgor mai at y perchennog y dylid mynd, ond holodd sut i gael gafael arnynt. Holodd a roddwyd ystyriaeth i ddewisiadau eraill, megis mannau agored yn benodol ar gyfer cŵn, mannau wedi eu ffensio, neu gofrestrfa sy'n galluogi canfod troseddwyr, a phetaent wedi eu hystyried, a oeddent yn gymwys?

Hysbysodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden y pwyllgor fod mannau dan reolaeth i fynd â chŵn am dro gerllaw'r cynelau ger Parc Coronation. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden nad oedd ar hyn o bryd yn gweld angen i ffensio ardaloedd i ffwrdd mewn parciau mwy gan y byddai hyn yn cyfyngu gormod. Adolygir y GGMC bob tair blynedd, a bydd modd ei adolygu eto gan ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r GGMC hwn. Y prif ddymuniad oedd gweld a oedd y GGMC hwn yn ateb i reoli cŵn ar dir. Dywedodd yr aelod pwyllgor nad oedd yn anghytuno, ond anogodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden i ystyried edrych ar ardaloedd a gwledydd eraill i weld a allai unrhyw rai o'u cynlluniau fod yn gymwys i'r ardal hon. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y gellir ymchwilio i hyn, ac o bosib adolygu, ond gan atgoffa'r pwyllgor eu bod eisoes wedi edrych ar awdurdodau lleol eraill ac wedi eu defnyddio fel sail i'r GGMC hwn.

Yr oedd aelod o'r pwyllgor yn croesawu'r GGMC Parciau hwn. Tynnodd sylw at bwysigrwydd cadw cŵn ar dennyn mewn mynwentydd, a hefyd y peryglon sy'n dod o gael baw cŵn ar gaeau chwarae plant. Nododd y pwyllgor y dylid ymgynghori yn eang gyda phob math o gynrychiolwyr, nid dim ond y Kennel Club, ac awgrymodd holi gwahanol glybiau chwaraeon. Yr oedd aelod o'r pwyllgor yn cefnogi gwarchod llwybrau teithio llesol er mwyn diogelwch y cyhoedd, a nododd fod gwallau yn atodiad 1 sydd angen eu cywiro.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden wrth y pwyllgor mai'r bwriad oedd ymgynghori â chlybiau ac aelodau'r cyhoedd yn ogystal â'r Kennel Club i gael ymgynghoriad amrywiol a chynhwysol yn ôl dymuniad y Rheolwr Tîm (Parciau ac Adloniant).

- Nododd y pwyllgor fod camgymeriadau yn Atodiad 1 o ran wardiau a lleoliad parciau, a holwyd a fyddai'r adroddiad yn cael ei gywiro cyn ei wneud yn gyhoeddus, oherwydd bod nifer o anghysonderau.

Holodd aelod pwyllgor sut y byddai'r mannau lle mae mathau gwahanol o eithrio yn cael eu diffinio yn ymarferol, o ran y Glebelands yn benodol, lle'r oedd coetiroedd, ac a fyddai angen rheolaeth briodol yno. Dywedodd y pwyllgor fod y gyfraith yn mynnu fod cŵn yn cael eu meicrosglodio; yn yr un modd, a ellid edrych i mewn i'r syniad o yswiriant trydydd-parti am anifeiliaid dof?

Ymddiheurodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden am y gwallau, gan ddweud wrth y pwyllgor y byddid yn edrych i mewn i hyn ac y câi'r pwyllgor gopi cywir. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai lleiniau yn cael eu marcio i'w gwneud yn hawdd eu hadnabod, ac er efallai na fyddai llinellau gwynion ym mhobman, y gellid eu marcio trwy eu llosgi neu ddefnyddio chwynladdwr.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod dryswch o ran cyfeirio at y Glebelands, gan na ddangoswyd hyn yn y cyflwyniad. Dywedodd aelod o'r pwyllgor mai ei ddefnyddio fel esiampl a wnaed, a dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddai gorchymyn rheoli priodol yn gymwys i bob tir mewn perchenogaeth, ac y byddai cyfyngiadau pellach ar y mannau priodol. Ymatebodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden i gwestiwn yswiriant, gan ddweud y byddai angen holi'r adran Gyfreithiol, ond yn ei barn hi, byddai'n anodd ei orfodi. Pe na bai modd fforddio yswiriant, golygai hyn y byddai'r ci wedi ei eithrio o ddefnyddio mannau agored. Casgliad y Rheolwr Gwasanaeth oedd y byddai mynnu cael yswiriant trydydd parti er mwyn defnyddio mannau agored yn anodd iawn i'w weithredu, yn cyfyngu ar rai pobl, ac yn anodd i'w blismona.

Soniodd y pwyllgor fod nifer o gwynion wedi eu derbyn am faw cŵn ym Mynwent Sant Gwynllyw. Mae aelod o'r pwyllgor wedi siarad â gweithwyr y fynwent fydd yn gwneud eu gorau i sicrhau na fydd hyn yn digwydd, ac yr oedd yr aelod pwyllgor yn credu bod hyn yn drefniant cystal ag y gallant gael. Mynegodd y pwyllgor bryder nad oedd yr adroddiad yn enwi Mynwent Sant Gwynllyw, ond sicrhaodd y Rheolwr Gwasanaeth fod Mynwent Sant Gwynllyw wedi ei chynnwys yn yr adroddiad.

- Gofynnodd aelod o'r pwyllgor am eglurhad am ba hyd y mae gofyn i gŵn fod ar dennyn ym Mharc Belle Vue.

Cydnabu'r Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden na fu'r aelod o'r pwyllgor yn bresennol ar ddechrau'r cyflwyniad, ac esboniodd y byddai'r GGMC Parciau yn disodli'r holl is-ddeddfau presennol a gorchmynion rheoli cŵn ar rai safleoedd. Ymddiheurodd yr aelod pwyllgor am ei absenoldeb rhannol, ond holodd am Barc Belle Vue yn benodol. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden, fel y nodir yn y GGMC, fod yn rhaid i gŵn ym mharciau'r ddinas fod dan reolaeth gywir, yn dibynnu ar lefel yr hyfforddiant a gafodd y ci neu a oes angen ei reoli â thennyn. Dan delerau'r GGMC, bydd yn rhaid rhoi cŵn ar dennyn os bydd warden neu weithiwr parciau yn mynnu hynny.

- Holodd yr aelod pwyllgor a yw ceidwaid parciau yn dal ar gael i aelodau'r cyhoedd.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden y gallai ceidwaid parciau roi cyfarwyddyd, a phetai rhywun yn gwrthod, yna gellid cyfeirio at yr heddlu. Mae modd, dan y gorchymyn, cymryd camau eraill petae angen. Yr oedd yr aelod pwyllgor yn deall ei hesboniad, ond ni wyddai a oedd ceidwad parciau ar gael ym Mharc Belle Vue a phryd y gellid disgwyl iddynt fod yn bresennol i weithredu'r GGMC. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd a Hamdden fod staff ar y safle yn rheolaidd, gan gynnwys ceidwaid sy'n ymweld i wagio'r biniau, a staff gerddi. Gofynnwyd am yr oriau y mae'r gwasanaeth ar gael. Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm (Parciau ac Adloniant) yn ystod yr wythnos waith, fod staff gerddi ar y safle rhwng 7am-3pm yn yr haf, a 9am-5pm yn y gaeaf. Ychwanegodd y Rheolwr Tîm (Parciau ac Adloniant) yn ystod yr haf fod ceidwaid parciau ar y safle yn dechrau am 1pm-8pm, a hyn yn newid fel mae golau dydd yn newid wrth nesáu at y gaeaf. Dywedodd hefyd fod ceidwaid parciau ar gael dros y penwythnos yn y gaeaf. Gofynnodd yr aelod pwyllgor lle mae canolfan y ceidwaid parciau yn y parc. Atebodd y Rheolwr Tîm (Parciau ac Adloniant) nad oes un man i'r ceidwaid am eu bod yn gweithio yn y parc cyfan, er bod cyfleusterau iddynt ar y safle i gael cinio a seibiant yn hen safle'r feithrinfa. Dywedodd y Rheolwr Tîm (Parciau ac Adloniant) ei bod yn sylweddoli fod y parc yn un mawr. Gofynnodd yr aelod pwyllgor am gadarnhad y bydd ceidwad parciau ar gael i rywun fynd atynt, a sicrhaodd y Rheolwr Tîm (Parciau ac Adloniant) mai diben eu cael yno yw i helpu'r cyhoedd bob tro.

4 **PSPO Canol y Ddinas**

<u>Gwahoddwyd:</u>

Gareth Price  Pennaeth Cyfraith a Rheoleiddio
Rhys Thomas  Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio
Michelle Tett  Rheolwr Gwarchod Cymunedol
Arolygydd Jodie Davies  Heddlu Gwent

Diolchodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio i'r pwyllgor am wneud lle i eitemau ar yr agenda. Esboniodd fod yr adroddiad a gyflwynwyd yn gofyn am barhad o'r GGMC sydd yn bod eisoes. Atgoffodd y pwyllgor fod y GGMC yn dod i ben ar 23 Awst 2021 a bod yr adroddiad hwn yn ymgynghori ar barhad yr angen am GGMC ac a yw cyfyngiadau GGMC y Ddinas yn dal yn berthnasol.

Gorchymyn lleol yw GGMC y Ddinas a wneir gan awdurdod lleol, ac y mae'n erfyn i ateb y problemau a osodir allan yn yr adroddiad; mae gan bartneriaid ar y bwrdd gwasanaeth brosesau eraill y gellir eu defnyddio hefyd.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio wrth y pwyllgor y gallant ddewis adnewyddu heb ymgynghori, ond y dylid ymgynghori â'r cyhoedd. Dywedodd mai'r dewisiadau oedd adnewyddu gyda'r un cyfyngiadau, adnewyddu gyda chyfyngiadau wedi eu hychwanegu, eu hamrywio neu eu newid, neu fe all y pwyllgor benderfynu nad oes angen bellach am GGMC Canol y Ddinas, a dod ag ef i ben.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio fod GGMC Pilgwenlli wedi ei adolygu'n ddiweddar, a dywedodd fod 'gwersi wedi eu dysgu' o ran y GGMC cyfredol. Argymhellodd y dylid cynnal ymgynghoriad am fis Awst 2021, a nododd yr awgrym a wnaed cyn y cyfarfod y dylid cynnwys perchenogion busnes yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio fod GGMC yn sylfaen i waith arall mewn ardal, a'i fod yn rhan o brosesau a ddefnyddiwyd ar gyfer problemau gwrthgymdeithasol ehangach.

Agorodd y cadeirydd y llawr i gwestiynau.

- Diolchodd y pwyllgor i'r Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio am ei gyflwyniad ac am gynnwys ardaloedd busnes yn yr ymgynghoriad.  Holodd aelod o'r pwyllgor am nifer y digwyddiadau a roddwyd yn atodiad 2,  yn benodol yr anghysondeb o 25 yn 2020  holodd a oedd hyn wedi ei achosi gan Covid-19. Yr oedd yr aelod pwyllgor yn cydnabod effeithiolrwydd y GGMC, ond nododd hefyd, pan fo niferoedd yn gostwng, a yw mor effeithiol ag y bu? Holodd yn benodol beth ddigwyddiad yn 2020 gyda'r cynnydd mawr mewn niferoedd, ac a yw'n bosib fod y pandemig wedi anffurfio'r niferoedd?

Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio trwy ddweud na wyddai am unrhyw reswm penodol, ond  nododd, o Chwefror 2020 ymlaen, wrth i'r cyfyngiadau ddod i rym, y tueddodd y niferoedd i ostwng. Esboniodd y daeth y GGMC i rym gyntaf yn 2018 ac y bu cyfnod cyflwyno graddol, gydag esbonio a chynghori cyn cymryd camau gorfodi ar unrhyw gwynion a dderbyniodd y cyngor. Dywedodd hefyd y gallai'r niferoedd fod yn is oherwydd COVID. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio mai gorchymyn adweithiol ydyw, a all esbonio'r niferoedd is, ac atgoffodd y pwyllgor fod tueddiadau yn cael eu hadlewyrchu dros 3 blynedd, sydd yn gyfnod adrodd byr.

- Dywedodd aelod pwyllgor ei fod, fel aelod ward, yn cefnogi parhau â'r gorchymyn. Yr oedd yn cydnabod fod y GGMC wedi gwneud gwahaniaeth o ran atal problemau blaenorol megis yfed yng nghanol y ddinas, a'r sbwriel oedd yn deillio o hyn. Dywedodd, o ganlyniad i'r gorchymyn dros y tair blynedd ddiwethaf, y gwelwyd peth newid. Ategodd ei gefnogaeth i barhau â'r gorchymyn a dywedodd fod yr adroddiad ei hun wedi ei osod allan yn dda, er y buasai crynodeb ar y dechrau wedi bod yn fuddiol. Yn olaf, mynegodd yr aelod pwyllgor bryder y gadawyd pethau mor hwyr cyn adolygu'r angen i barhau â GGMC Canol y Ddinas a gofynnodd i'r swyddogion gadarnhau y cyfnod rhwng diwedd yr hen GGMC a dechrau'r un newydd, gan ofyn beth fyddai'n digwydd yn y cyfamser.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio mai mater o amseru oedd hyn a chael y cyngor i weithredu. Pwysau Covid oedd i gyfrif fod y GGMC yn dod yn hwyr i'r Pwyllgor

Craffu. Dywedodd ei fod yn iawn caniatáu cyfnod o ymgynghori ac ystyried. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio sicrwydd i'r pwyllgor fod pwerau gan yr awdurdod lleol a'r Heddlu i drin unrhyw broblemau yn y cyfamser, ac atgoffodd y pwyllgor nad y GGMC oedd yr unig orchymyn. Ymatebodd yr aelod pwyllgor i'r sicrwydd hwn ac yr oedd yn falch fod 'gwedd newydd' ar ganol y ddinas, ac nad oedd am i arferion drwg ddychwelyd. Ategodd, yn ystod y cyfnod rhwng GGMC, fod y pwyllgor eisiau arddangos 'gwedd newydd' y ddinas, a phrofi eu bod yn hyderus. Gorffennodd trwy ddweud ei fod yn gobeithio y gellir ymdrin â'r problemau yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac y bydd y Cyngor yn penderfynu parhau â GGMC Canol y Ddinas.

Mynegodd y pwyllgor bryder am niferoedd Rhybuddion Cosb Benodol am gardota am eu bod yn ymddangos yn is o lawer na nifer y cwynion a wnaed gan aelodau'r cyhoedd. Holodd y pwyllgor am y broses o wneud cwyn, a mynegi pryder, yn hytrach na gwneud cwyn fod y cyhoedd yn 'goddef' yr ymddygiad. Holodd aelod o'r pwyllgor a ellid codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd fod modd iddynt grybwyll problem neu wneud cwyn, gan y teimlai'r aelod pwyllgor fod hon yn broblem barhaus.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio mai'r broses oedd, pe na bai Swyddogion neu Wardeniaid yn ymdrin yn syth â phroblem ar y safle, y gallai aelodau'r cyhoedd adrodd am broblem naill ai dros y ffôn, trwy'r wefan neu yn bersonol. Dywedodd fod swyddogion yn mynd i fannau i geisio symud troseddwyr ymlaen, ac atgoffodd y pwyllgor fod y GGMC hwn am atal a gwrthweithio ymddygiad ymosodol. Soniodd am yr ymwneud rhwng y Tîm TCC a swyddogion, sydd yn anfon swyddogion i'r fan a'r lle os ydynt yn y cyffiniau. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio fod Heddlu Gwent hefyd yn gwneud yr un peth. Ychwanegodd y Sarjant Butt fod arolygon a chymorthfeydd rheolaidd yn cael eu cynnal yng nghanol y ddinas gan yr Heddlu lleol, a bod hyn yn digwydd deirgwaith yr wythnos mewn adeilad newydd a gawsant yn Friars Walk, lle'r oedd SCCH ar gael, a bod anogaeth i aelodau'r cyhoedd adrodd am droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ychwanegodd y Sarjant Butt fod SCCH a Wardeniaid wedi rhoi Rhybuddion Cosb Benodol lle bo angen i droseddwyr allweddol, yn ogystal â Rhybuddion Gwarchod Cymunedol a Gorchmynion Ymddygiad Troseddol, a all helpu i leihau'r niferoedd. Nododd fod y rhain yn cael eu rhoi i droseddwyr aml a chyson yn unig, a bod defnydd yn cael ei wneud o'r amodau a map y GGMC i gyfyngu ar symudiadau troseddwyr o'r fath. Dywedodd wrth y pwyllgor y delir tri ar ddeg o Orchmynion Ymddygiad Troseddol, a bod a wnelo wyth ohonynt a chardota ymosodol, ond bod y gorchmynion hyn yn sicrhau fod troseddwyr yn gadael canol y ddinas, a bod hyn hefyd wedi lleihau'r niferoedd.

- Nododd aelod pwyllgor fod cardota yn cael ei wahardd yn unig gerllaw peiriannau arian, a galwodd am waharddiad llwyr ar gardota oherwydd problemau gyda chardota mewn meysydd parcio ac o gwmpas canol y ddinas.

Nododd y Sarjant Butt fod nifer o fesurau eraill wedi eu rhoi ar waith i atal cardota ac y gall yr heddlu ddelio ag aflonyddu y tu hwnt i gylch gorchwyl y GGMC. Nododd y Sarjant Butt hefyd fod problemau moesegol a chyhoeddus am wahardd cardota yn llwyr. Cytunodd Rheolwr y Maes Gwasanaeth i gynnwys cwestiwn ar wahardd cardota yn llwyr yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Cododd aelod o'r pwyllgor fater e-feiciau ac e-sgwteri, gan ddweud eu bod yn niwsans mewn ardaloedd i gerddwyr, gyda mwy o bwyslais ar sgwteri trydan. Yr oedd yr aelod pwyllgor wedi gobeithio am ateb mwy pendant gan y Pennaeth Cyfraith a Rheoleiddio, ond ei fod yn sylw o nifer o wardiau ac adroddiadau mai sgwteri trydan oedd hoff ddull 'masnachwyr cyffuriau ar raddfa fechan'. Diolchodd yr aelod pwyllgor i'r cadeirydd a dywedodd y dylid trafod beth fydd yn yr ymgynghoriad.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio, fel y nodir yn yr adroddiad, fod cyfyngiadau ar e-sgwteri, beicio a sglefrfyrddau. Esboniodd, er mwyn eu cynnwys yn y GGMC, y byddai'n rhaid cael tystiolaeth, a'i fod wedi ceisio darparu hyn. Y cam gorau fyddai adolygu'r ymgynghoriad cyn mynd ymlaen. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio, wrth iddo adolygu'r cofnodion, y soniwyd am nifer o negeseuon testun gan aelodau'r cyhoedd yn gysylltiedig â'r adroddiad. Dywedodd hefyd ei bod yn bosib cyfyngu ar e-sgwteri, gan fod cynsail mewn GGMC cyfagos am Heol Caerdydd, lle gellid addasu'r geiriad i sicrhau cysondeb. Gofynnodd yr aelod pwyllgor i'r Sarjant Butt am ei sylwadau, a dywedodd y Sarjant Butt fod gan yr Heddlu bwerau am e-feiciau /e-sgwteri dan Adran 59 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002. Dywedodd eu bod wedi cymryd tri o e-sgwteri rhwng Pilgwenlli a chanol y ddinas. Dywedodd hefyd fod Adran 165 Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd yn crybwyll yswiriant am for e-sgwteri, ac y dylai e-sgwteri fod ag yswiriant, ac mai dan y Ddeddf honno y cipiwyd y sgwteri. Dywedodd wrth y pwyllgor mai problem, fwyaf yr Heddlu yw 'mynd i'r afael' oherwydd natur yr e-feic/sgwter pan fydd swyddogion ar droed , ond rhoes sicrwydd i'r pwyllgor fod yr Heddlu a Wardeniaid yn dibynnu'n drwm ar TCC yn yr achosion hyn i'w hadnabod a'u hatafaelu.

- Cefnogodd y Pwyllgor gynnwys cwestiwn am e-sgwteri ac e-feiciau yn yr ymgynghoriad.

- Cododd y pwyllgor bwynt am waharddiad llwyr ar gardota, gan gydnabod profiad diraddiol digartrefedd a'r angen am gardota. Atgoffodd yr aelod pwyllgor fod hyn eisoes wedi ei drafod yn llawn; yr oedd yn cydnabod fod llawer o blaid gwahardd cardota yn llwyr, ond ni fyddai hyn yn gwneud i ffwrdd a'r broblem. Aeth ymlaen i nodi, o edrych ar y data yn yr adroddiad, nad oedd llawer wedi newid o ran dilysrwydd gwahardd cardota yn gyfan gwbl. Yr oedd yr aelod pwyllgor o blaid cynnwys y cwestiwn, ond yn cydnabod na fyddai hyn yn ystyried pob problem ynghylch cardota.

- Dywedodd aelod o'r pwyllgor fod y ddinas mewn sefyllfa od lle na chaiff ceir deithio ar fwy na 20mya ar y ffyrdd ond bod e-sgwteri yn gallu cyrraedd 30 mya ar balmentydd, oedd yn achos pryder.

Cefnogodd y Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddio farn Sarjant Butt a'r Heddlu am e-sgwteri, ond gan gydnabod hefyd y byddai'n briodol i'r GGMC fod yn seiliedig ar dystiolaeth, a chan gadw mewn cof fod gan Gyngor Dinas Casnewydd fel corff corfforaethol gyfrifoldeb dros deithio llesol a gwarchod yr amgylchedd. Ychwanegodd fod mater e-sgwteri wedi ei drafod yn GGMC Pilgwenlli a'i fod yn hapus i gynnwys cwestiwn am hyn fel rhan o ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r GGMC, ond atgoffodd y pwyllgor na ellid gwneud teithio llesol yn drosedd i deithwyr cyfreithlon. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Rheoleiddio sicrwydd hefyd i'r pwyllgor fod yr Heddlu yn gwneud penderfyniadau synhwyrol seiliedig ar risg, heb dargedu aelodau cyffredin y gymuned sy'n defnyddio beiciau trydan a sgwteri yn gyfreithlon.

Dywedodd aelod o'r pwyllgor ei fod yn fodlon codi mater e-feiciau/sgwteri fel cwestiwn.

## 5 Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau

Nododd y pwyllgor eu bod yn hapus â chynnwys y GGMC presennol, ond yr hoffent weld beiciau a sgwteri yn cael eu cynnwys, yn ogystal â gofyn cwestiwn am y gwaharddiad llwyr ar gardota, a gwahodd busnesau i fod yn rhan o'r ymgynghoriad. Gwahoddwyd yr

Ymgynghorydd Craffu i gadarnhau mai dyma'r prif faterion a godwyd. Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Craffu hyn, ac ychwanegu'r pryder a godwyd ynghylch y bwlch yn y GGMC o fis Awst i fis Hydref.

- Holodd y pwyllgor a oedd llinell ffôn am adrodd am ymddygiad gwrthgymdeithasol i hwyluso pethau i aelodau'r cyhoedd. Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu y gellir cysylltu â'r ganolfan gyswllt i adrodd am unrhyw broblemau, ond ategodd yr aelod pwyllgor yr awydd am roi llinell ffôn ar waith.
- Nododd y pwyllgor fod y GGMC Parciau wedi ei ddrafftio'n wael ac yr hoffent gael ail ddrafft i gywiro gwallau.
- Nododd y pwyllgor y dymunent fod wedi cael yr adroddiadau yn gynharach.
- Nododd y pwyllgor yr hoffent weld ymgynghoriadau yn cael eu hysbysebu'n aml ar y cyfryngau cymdeithasol.
- Gofynnodd y pwyllgor am i oriau gwaith ceidwaid y parciau gael eu gwneud yn gyhoeddus.

## 6 Adroddiad Cynghorydd Craffu

Blaen-gynllun gwaith. Nododd yr Ymgynghorydd Craffu nad oedd newidiadau at y dyfodol, ac y byddai'r GGMC yn debyg o ddod yn ôl i'r pwyllgor tua Medi 23 gyda gwahoddiad i'r cynghorydd/wyr wardiau ac Aelodau Cabinet priodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.50 pm